Mae brigau i gyd yn edrych yr un fath. Gwir neu gau?

Beth fydd arnoch ei angen: Rhai brigau gaeaf gwahanol sydd wedi colli eu dail, ac ysgrifbin.

Edrychwch yn ofalus ar eich brigyn ac atebwch y cwestiynau hyn.

Ydy eich brigyn yn droellog neu'n syth?

.....

2. Pa liw yw'r blagur?

.....

3. Pa siâp yw'r blagur? Ydyn nhw'n grwn neu'n bigfain, hir neu fyr?

.....

.....

4. Sut mae'r blagur wedi'u trefnu? Ydyn nhw mewn parau neu beidio? Edrychwch ar y lluniau ar ochr arall y dudalen am enghreifftiau – ceir blagur yr ysgawen mewn parau, ond nid felly blagur y ddraenen wen.

.....

.....

5. Ar beth arall ydych chi'n sylwi am eich brigyn? Er enghraifft, a oes unrhyw ddrain arno, neu weddillion dail neu eirin llynedd? Ydy'r blagur yn ludiog? Neu allwch chi weld unrhyw rannau gwyrdd ble mae'r dail newydd yn dechrau ymddangos?

.....

.....



Cwestiynau i'w hateb os oes amser

6. Sut mae'r rhisgl yn teimlo wrth ei gyffwrdd? Ydy e'n arw neu'n llyfn? Sut byddech chi'n ei ddisgrifio?

.....

.....

.

7. Pa liw yw'r rhisgl? Edrychwch yn ofalus – ydy'r un lliw drosto i gyd? A oes unrhyw farciau arno? Pa fath o farciau sydd arno?

.....

.....

8. Edrychwch unwaith eto ar y blagur (os nad ydynt yn rhy fach i chi eu gweld yn rhwydd). Ydyn nhw'n edrych yn llyfn, neu a oes cenddail drostynt?

.....

Trowch drosodd...

Mae brigau i gyd yn edrych yr un fath. Gwir neu gau?

Tynnwch lun gofalus o'ch brigyn fan hyn ac ychwanegwch labeli.



Nawr dewiswch frigyn arall sy'n edrych yn wahanol iawn i'r un cyntaf. Tynnwch lun ohono ac ychwanegwch labeli i ddangos ym mha ffyrdd y mae'n wahanol.



Cwestiwn

Allwch chi feddwl pam y gallai rhai coed golli eu dail yn y gaeaf? Cliw: meddyliwch am y gwahaniaeth yn y tywydd rhwng y gaeaf a'r haf.

Archwilio perth

Beth fydd arnoch ei angen: Ysgrifbin.

Mae perthi gan amlaf yn llawn o wahanol fathau o lwyni. Coed bach trwchus yw llwyni.

Dewiswch ddeilen o'ch perth ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1.Pa fath o lwyn daw'r ddeilen ohono? (Gofynnwch i'ch athro os nad ydych yn gwybod)

.....

2. Pa fath o siâp yw'r ddeilen? Rhowch gylch o gwmpas y llun sydd debycaf isod.

Syml Crwn



Llinol

Llabedog

Cyfansawdd (y ddeilen wedi'i gwneud o ddail llai)

3. Pa un o'r geiriau isod sy'n disgrifio ymyl y ddeilen orau? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb sydd debycaf neu ysgrifennwch eich ateb chi.

Llyfn Blewog

Danheddog Pigog

Fy nisgrifiad.....

4. Pa liw yw'r ddeilen? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb sydd debycaf neu ysgrifennwch eich ateb chi.

Gwyrdd golau Gwyrdd tywyll

Melynwyrdd Glaswyrdd

Brownwyrdd Melyn

Oren Brown

Fy nisgrifiad.....

5. Defnyddiwch y mesurydd ar waelod y daflen waith i fesur y ddeilen. Beth yw ei hyd o'i blaen i ble mae'n uno â'r coesyn?

.....cm

Allwch chi ddysgu mwy?
Dewiswch un o'r llwyni sydd yn eich perth a cheisiwch ddysgu mwy amdano. e.e. Ble mae'n well ganddo fyw yn y wlad? I ba uchder y mae'n tyfu? Ydy o'n cynhyrchu blodau neu ffrwythau? Pa anifeiliaid sy'n dibynnu arno am fwyd? Pa ddefnydd arall a wneir ohono?



Mesur eich perth

Beth fydd arnoch ei angen: Ysgrifbin, pren mesur hir neu dâp mesur.

Defnyddiwch y daflen hon i gofnodi beth allwch chi weld yn eich perth ac o gwmpas eich perth heddiw.

Dyddiad heddiw: .....

Tywydd heddiw:

.....

Y bywyd gwyllt a welais gerllaw heddiw:

.....

.....

1. **Amcangyfrifwch** uchder eich perth mewn centimetrau: (Os oes llawer o wahaniaeth yn uchder y llwyni, amcangyfrifwch uchder y llwyn byrraf a'r llwyn uchaf).

   Rwy'n amcangyfrif mai'r uchder yw .....cm

   NEU

   Rwy'n amcangyfrif fod yr uchaf yn .....cm

   Rwy'n amcangyfrif fod y byrraf yn .....cm

2. **Mesurwch** uchder gwirioneddol eich perth mewn centimetrau: (Os oes llawer o wahaniaeth yn uchder y llwyni, mesurwch y llwyn byrraf a'r llwyn uchaf yn y berth).

   Mae ein perth yn mesur .....cm NEU

   Mae'r llwyn uchaf yn .....cm

   Mae'r llwyn byrraf yn .....cm



3. **Dewiswch un o'r mathau o lwyni sydd yn y berth**

   Rwyf wedi dewis (ysgrifennwch ei enw isod)

   .....

   Pa mor uchel yw'r holl lwyni o'r math hwn yn y berth? Mesurwch bob un a chofnodwch isod.

   .....cm

   .....cm

   .....cm

   .....cm

   .....cm

Archwilio hen berth

Mae perthi yn gynefinoedd

Beth fydd arnoch ei angen: Ysgrifbin.

Beth yw cynefin?
Cynefin yw man y mae anifeiliaid a phlanhigion yn byw ynddo. Mae perth yn fath o gynefin.

Beth yw cyflwr cynefin y berth yma?

1. Disgrifiwch y cynefin perth. Ydy e'n drwchus, pigog, llaith, cysgodol? Ceisiwch ddefnyddio eich geiriau eich hunain. **Awgrymwch 4 gair**.

   .....

   .....

2. Pa fath o anifeiliaid gredwch chi allai fyw mewn perth sydd wedi bod yn tyfu am lawer o flynyddoedd? Enwch rai isod.

   .....

   .....

   .....

3. Pa anifeiliaid allwch chi ganfod yn y berth ac o gwmpas y berth hon heddiw?

.....

.....

.....

.....



4. Pam gredwch chi eu bod yn byw yno?

   .....

   .....

   .....

Beth yw oedran y berth?

Beth fydd arnoch ei angen: dwy ffon, tâp gludiog.

Mae perthi wedi bod yn rhan o gefn gwlad am gannoedd o flynyddoedd. Fe'u plannwyd yn wreiddiol i gadw gwartheg a defaid mewn caeau ac i'w rhwystro rhag crwydro ar hyd y lle. Mae'n bosibl gweld rhai o'r hen berthi heddiw.

Fel rheol, mae gan berthi hŷn fwy o amrywiaeth o lwyni ynddynt oherwydd fod hadau o wahanol rywogaethau yn cyrraedd yn araf ac yn dod yn rhan o'r berth. Nawr trowch drosodd.

Archwilio hen berth

Beth yw oedran y berth?

1. Rhowch un o'ch ffyn yn y ddaear gerllaw'r berth.

2. Cerddwch 40 cam hir a rhowch yr ail ffon yn y ddaear.

3.Cymerwch ddeilen o bob gwahanol fath o lwyn a welwch ar hyd y berth rhwng y ddwy ffon. Defnyddiwch y tâp gludiog i lynu'r dail ar waelod y daflen hon.

Cyngor:

Casglwch ddail o'r llwyni yn unig – sef y planhigion gyda choesynnau prennaidd yn unig, nid coesynnau meddal.

Cyfrifwch bob math o lwyn unwaith yn unig – gwiriwch unrhyw ddail newydd yn erbyn y rhai sydd eisoes ar eich taflen.

4. Cyfrifwch faint o ddail gwahanol yr ydych wedi'u casglu.

Llwyddais i gasglu ..... o fathau gwahanol.

Mae'r berth oddeutu can mlwydd oed am bob un llwyn gwahanol sydd ynddi.

Mae hyn yn golygu y gallai fy mherth fod yn ..... cant oed.

Cwestiwn

Allwch chi feddwl am unrhyw resymau pam y gallai'r ymarfer hwn roi'r ateb anghywir yn achos rhai perthi? Cliw: Pa fath o berthi y mae pobl yn eu plannu y dyddiau hyn?

gludwch eich dail isod

Cadwynau bwyd

Beth fydd arnoch ei angen: Ysgrifbin.

Beth yw cadwyn fwyd?

Mae cadwyn fwyd yn dangos sut mae gwahanol anifeiliaid a phlanhigion yn dibynnu ar ei gilydd.

Mae cadwynau bwyd fel rheol yn dechrau gyda phlanhigyn gwyrdd, y cynhyrchydd. Mae planhigion yn defnyddio'r haul i dyfu a gwneud (cynhyrchu) dail, hadau a ffrwythau. Gall anifeiliaid eraill ddefnyddio'r rhain fel bwyd.

Gelwir anifeiliaid yn ddefnyddwyr, oherwydd eu bod yn bwyta (defnyddio) planhigion ac anifeiliaid eraill.

Dyma enghraifft o un gadwyn fwyd:



titw tomos las
mae'r titw tomos las yn bwyta lindys
(Defnyddiwr)



lindysen
mae lindys yn bwyta planhigion gwyrdd
(Defnyddiwr)



collen
mae collen yn blanhigyn gwyrdd
(Cynhyrchydd)

Trowch drosodd...

Woodland Trust
tree for all
coed i bawb
Coed Cadw

Cadwynau bwyd

Edrychwch ar y llun hwn o berth coetir.
Mae enwau rhai o'r creaduriaid ar goll.
Allwch chi eu henwi?



Cadwynau bwyd

Dyma fwy o wybodaeth am y planhigion a'r anifeiliaid yn y llun

Cynhyrchwyr

Planhigion gwyrdd
Dail meirw a syrthiodd oddi ar blanhigion gwyrdd
Mes – o blanhigyn gwyrdd mawr (derwen)

Defnyddwyr sy'n bwyta planhigion

Mae pry genwair (mwydyn) yn bwyta dail meirw
Mae malwod a lindys yn bwyta planhigion gwyrdd
Mae gwiwerod yn bwyta mes

Defnyddwyr sy'n bwyta anifeiliaid eraill

Mae moch daear yn bwyta pryfed cenwair (mwydod)
Mae'r titw tomos las yn bwyta lindys
Mae'r fronfraith yn bwyta malwod
Mae llwynog yn bwyta'r fronfraith, y titw tomos las a wiwerod

Nawr defnyddiwch y wybodaeth hon i gwblhau pedair cadwyn fwyd

Cadwynau bwyd

Planhigion gwyrdd lindys ....

Planhigion gwyrdd ..... bronfraith .....

Dail meirw ....

Mes ..... llwynog

Cwestiwn

Esboniwch pam gredwch chi fod planhigion yn rhan mor bwysig o gadwynau bwyd.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Straeon gwyllt

Beth fydd arnoch ei angen: Ysgrifbin

Darllenwch y chwedlau gwerin hyn am wahanol lwyni cyffredin:

Collen



Credai'r Celtiaid fod bwyta cnau cyll yn eich gwneud yn ddoeth. Roedd ganddynt chwedl hynafol am naw o goed cyll a dyfai o amgylch pwll sanctaidd. Roedd yna eogiaid yn byw yn y pwll a oedd yn bwyta'r cnau a syrthiai o'r coed cyll gan amsugno'r doethineb o'r cnau. Roedd nifer y brychau llachar ar groen yr eogiaid yn dangos faint o gnau oeddent wedi'u bwyta.

Ysgawen

Credai bobl yn Nenmarc fod ysbryd o'r enw Mam yr Ysgawen yn byw yng nghanghennau'r ysgawen. Pe defnyddid y pren hwn i wneud dodrefn, byddai Mam yr Ysgawen yn dilyn ac yn aflonyddu ar y perchnogion. I rwystro hyn, roedd yn rhaid gofyn iddi cyn torri'r coed.

Roedd pobl yn ofni'r ysgawen. Yn Ne Cymru roedd yn gred gyffredinol ei bod yn beryglus codi tŷ yn ymyl ysgawen neu lle roedd coed o'r fath wedi tyfu yn y gorffennol, ac ni fyddai'r teulu yn aros yno yn hir.

Y Ddraenen Wen



Yn yr hen ddyddiau, byddai pobl yn dawnsio o amgylch draenen wen wrth ddathlu Calan Mai yn hytrach na dawnsio o amgylch y fedwen Fai. Byddai pobl yn casglu garlantau Mai, sef blodau'r ddraenen wen.

Roedd gwŷl Calan Mai yn bwysig iawn i'r hen Geltiaid. Ar y dydd hwn byddent yn cynnau tanau o ganghennau'r dderwen ac yn gyrru eu gwartheg rhwng y tanau i'w gwella o bob clefyd.

Nawr lluniwch chwedl werin am lwyn o'ch dewis chi. Gallech ddefnyddio un o'r syniadau hyn.

1. Enw arall am y ddraenen wen yw'r goeden bara a chaws.

2. Roedd y Celtiaid yn meddwl mai coeden gwybodaeth oedd y dderwen.